DLG 03
Ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol
Inquiry into diversity in local government Ymateb
gan: Cyngor Sir Ceredigion
Response from: Ceredigion County Council

John Griffiths AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD, CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd,

Ymgynghori ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol

Yn dilyn eich llythyr yn holi am dystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad uchod, wele isod wybodaeth ynghylch y sefyllfa yng Ngheredigion. Rydym wedi cylchredeg yr arolwg ar-lein ymysg ein holl Gynghorwyr, a hyderaf y byddant yn ateb yn unigol. At hyn, fe wnaethoch gynnal Grwp Ffocws yng Ngheredigion ar 19 Gorffennaf, 2018 er mwyn holi barn cynrychiolaeth yr Aelodau Etholedig; fe wnaeth 3 o Aelodau Cyngor Sir Ceredigion fynychu'r digwyddiad hwn, ynghyd ag Aelodau o Sir Gar a Sir Benfro.

Data Cydraddoldeb Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ceredigion

42 Aelod Etholedig.
5 menyw a 37 gwryw.
3 menyw yn eistedd ar Gabinet y Cyngor, gan gynnwys yr Arweinydd.
Mae 37 Aelod yn siaradwyr Cymraeg yn rhugl - 3 yn dysgu'r Gymraeg - ac mae cyfle i siarad Cymraeg neu Saesneg yn y Siambr yn unol a'u dewis iaith.
Nid oes yr un Cynghorydd wedi datgan bod ganddynt anabledd sy'n lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.
Nid oes yr un Cynghorydd o dras ethnig amrywiol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu sefyllfa demograffeg poblogaeth Ceredigion - yn ng Nghyfrifiad 2011, roedd 97.7% o'r boblogaeth yn wyn/Prydeinig.
Mae 31 o'r aelodau etholedig dros 55 mlwydd oed.
Yn yr etholiad lleol diwethaf fe ymgeisiodd 24 o ferched am seddi - dim ond 5 gafodd eu hethol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Rhai rhwystrau wrth ddenu cronfa fwy amrywiol o ymgeiswyr

- Mae pobl ifanc wedi nodi bod cyflog Aelod Etholedig yn isel, ac felly mae'n rhaid dal swydd arall er mwyn cynnal y cyflog.
- Er mwyn cyflawni'r gwaith fel Aelod Etholedig, mae'n ofynnol gweithio'n rhan amser neu rannu swydd - nid yw'r swyddi hyn yn rhwydd i'w cael.
- Mae rhai cyflogwyr yn gwrthod rhyddhau eu staff er mwyn caniatau iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel Cynghorwyr.
- Mae bod yn gynghorydd weithiau'n cael ei ystyried fel rhywbeth negyddol o ran gyrfa.
- Mae cyflog cynghorydd yn seiliedig ar 3 diwrnod gwaith yr wythnos - ond nid yw hyn yn realistig. Mae mynychu pob Cyfarfod Pwyllgor, heb son am gyflawni gwaith yn yr etholaeth yn cymryd mwy na 3 diwrnod.
- Mae merched yn benodol wedi nodi ei bod hi'n anodd gweithio fel Cynghorydd a chyflawni cyfrifoldebau gofalu (gofalu naill ai am fabanod, plantar 61 oriau ysgol neu ofalu am rieni hyn). Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig ad-dalu costau gofal - ond hyd yma nid oes yr un Cynghorydd wedi manteisio ar y cynnig hwn.

Arfer da a allLhelpu i gynyddu amrywiaeth ym maes llywodraeth leol

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer Cynghorwyr.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno i beidio a dangos faint mae Cynghorydd yn hawlio yn unigol o ran ad-dalu .costau gofal - dim ond y cyfanswm ar gyfer yr holl Gynghorwyr sy'n cael ei ddatgelu.
- Caiff amseroedd cyfarfodydd eu ha olygu ddwywaith yn ystod pob gweinyddiaeth - mae'r mwyafrif llethol wedi nodi taw'r bore yw'r amser mwyaf cyfleus ar gyfer cyfarfodydd. Mewn ardal wledig fel Ceredigion mae gan y Cynghorwyr nifer fawr o alwadau cymunedol gyda'r hwyr.. At hyn hefyd, mae'r Aelodau yn mynychu Cyrff Llywodraethol Ysgolion Lleol, Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned a Phwyllgorau a gweithgareddau cymunedol, yn eu rol fel Aelod Lleol.

Hyderaf y bydd y wybodaeth uchod o ddefnydd i'ch ymchwiliad. Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth peidiwch ag oedi rhag cysylltu.

Yn gywir,